Ministry of Justice

**Y Gwir Anrhydeddus**
**Edward Argar AS**
Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Cadeirydd, Bwrdd Monitro
Annibynnol
Carchar Ei Fawrhydi Caerdydd
Ffordd Knox
Caerdydd
CF24 0UG

5 Ebrill 2024

Annwyl Gadeirydd

**CARCHAR EI FAWRHYDI CAERDYDD: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AM 1 MEDI 2022 - 31 AWST 2023**

Diolch i chi am gyflwyno eich adroddiad blynyddol ar Garchar Ei Fawrhydi Caerdydd yr wyf wedi'i ddarllen â gofal.Cymeradwyaf y bwrdd am ymgymryd â'i rôl statudol yn effeithiol, yn enwedig felly gan i chi weithredu gyda sawl swydd wag. Roeddwn wedi fy nhristáu'n fawr i ddarllen fod carchar wedi marw yn ystod y flwyddyn adrodd a hoffwn sicrhau'r Bwrdd fod argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf yn cael eu cymryd yn ddifrifol iawn.

Rwyf yn deall pryderon y Bwrdd ynghylch seilwaith carchar sy'n heneiddo a chydnabyddir y bu cyfnod pan nad oedd cymaint o ddŵr poeth neu ddim dŵr poeth o gwbl oherwydd bod bwyleri wedi methu. Mae rhai sbâr critigol ychwanegol wedi'u prynu a bellach cânt eu cadw ar y safle er mwyn lleihau i'r eithaf yr amser pan na fydd offer ar gael yn y dyfodol. *Mae cynnig i fuddsoddi yn yr ystâd wrthi'n cael ei ddrafftio er mwyn cael bwyleri newydd a gwella dyluniad seilwaith y dŵr poeth cyfredol.*Cyflwynir ceisiadau'n flynyddol, hefyd, i ailwampio celloedd a bydd hyn yn parhau hyd oni bydd yr holl gelloedd wedi'u hailwampio i'r safonau gofynnol. Fodd bynnag, dylid nodi y caiff y cynigion hyn a phob cynnig ariannol arall ar draws yr ystâd eu hystyried gan gadw mewn cof bod llawer mwy o alw ar gynnal a chadw nag sydd arian ar gael. O'r herwydd, mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawarhydi yn blaenoriaethu gwaith yn ofalus iawn i wneud y defnydd gorau o'r arian hwnnw, gan ganolbwyntio ar berygl i iechyd a pherygl i gapasiti a gwedduster. O ran y broblem gyda llygod mawr ac ati, mae gosod trapiau a gwenwyn wedi gostwng nifer y llygod mawr a bach sydd ar safle'r carchar. Rydym yn parhau i gadw llygad a gweithredir yn unol ag argymhellion y contractwr rheoli plâu.

Gan droi at bryderon y Bwrdd ynghylch fetio staff newydd oherwydd diogelwch, mae'n hanfodol y gwneir hyn yn amserol. Mae'r gwiriadau fetio'n hollbwysig i asesu unigolion yn erbyn ystod o ofynion deddfwriaethol cyn cyflogaeth ac i warchod diogelwch cyfanrwydd y carchardai. Adolygir y gwaith fetio a gwneir gwelliannau i fynd i'r afael â bygythiadau newydd a rhai sy'n dod i'r wyneb. Fel hyn, bydd unrhyw un sy'n dod i weithio i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi neu'n darparu gwasanaeth iddo yn cael ei fetio'n drwyadl ac yn amserol. Nid oes oedi gyda fetio ar hyn o bryd gyda data'n dangos mai 17 diwrnod gwaith ar gyfartaledd y mae'n ei gymryd i fetio staff a gyflogir yn uniongyrchol a naw diwrnod gwaith ar gyfartaledd i fetio staff a gyflogir yn anuniongyrchol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ystyried

unrhyw gam arall yn y broses recriwtio. Mae Gan Garchar Caerdydd berthynas weithio gref gyda'r tîm fetio ac maent yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â nhw i roi sylw i unryhw broblemau a allai arwain at oedi gyda fetio. Mae'r prosesau fetio lleol yn y carchar hefyd wedi'u hadolygu, gyda chyflwyno nifer fwy o bwyntiau cyswllt lleol, gan gynnwys pwynt cyswllt fetio newydd yn yr adran gofal iechyd. Mae amseroedd fetio wedi gostwng yn sgil y newidiadau hyn.

Er gwaethaf eich pryderon, roedd yn galonogol derbyn eich sylwadau bod gan staff berthynas dda gyda charcharorion a bod lefel arbennig o uchel o broffesiynolrwydd ymhlith staff y dderbynfa i gefnogi

carcharorion sy'n cyrraedd. Roeddwn yn dawelach fy meddwl o glywed bod carcharorion bregus yn cael eu cefnogi trwy Asesiad Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm effeithiol a bod yr unedau newydd ar gyfer Niwroamrywiaeth a Byw'n Rhydd o Sylweddau trwy Gymhelliant eisoes yn cynorthwyo carcharorion i wneud cynnydd. Pleser oedd nodi y bu gwelliannau yn y maes staffiogofal iechyd ac anghenion iechyd a lles carcharorion yn cael eu bodloni. Rwyf hefyd yn croesawu'r gydnabyddiaeth a roddir i wirfoddolwyr carcharorion ar draws y carchar am eu hymdrechion yn cefnogi ei cyfoedion, boed hyn trwy fforymau, mentora ar yr adeiniau neu bod yn glust, i nodi ychydig o enghreifftiau.

Nodaf eich bod wedi codi yn eich adroddiad un broblem leol sy'n bryder, rhywbeth y bydd y Llywodraethwr yn parhau i'ch gwneud yn ymwybodol ohono wrth i waith barhau. Nodir yn yr atodiad sydd ynghlwm sylwadau'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi mewn ymateb i faterion eraill a godwyd yn eich adroddiad.

Rwyf yn gwerthfawrogi cyfraniad gwerthfawr aelodau'r Byrddau Monitro Annibynnol ac rwyf yn ddiolchgar am y gwaith yr ydych yn ei wneud.

**Y GWIR ANRHYDEDDUS EDWARD ARGAR AS**

**Atodiad**

**CARCHAR EI FAWRHYDI CAERDYDD: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AM 1 MEDI 2022 - 31 AWST 2023**

**Sylwadau'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi ar faterion a godwyd yn yr adroddiad**

**Staff Prawf**

Yn ystod y 24 mis diwethaf, mae Prawf Cymru wedi buddsodi mewn recriwtio i'r swyddi gwag am Swyddogion Prawf a Swyddogion y Gwasanaeth Prawf yn yr Uned Rheoli Troseddwyr a'r timau Adsefydlu. Bu ymgyrchoedd recriwtio treigl am y ddwy swydd ac mae Gweithiwr Allgymorth Prawf Cymru wedi cefnogi'r ymgyrchoedd hyn i hyrwyddo'r swyddi a gweithio gyda'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi mewn ffeiriau gwaith, colegau a phrifysgolion. Cynhaliwyd, hefyd, weminarau wedi'u targedu i ddarpar ymgeiswyr ymuno a chael gwybod mwy am y swyddi hyn ac mae'r camau hyn wedi gostwng y swyddi gwag mewn Unedau Rheoli Troseddwyr ledled carchardai Cymru yn y 12 mis diwethaf..

Mae buddsoddi yng ngrwpiau'r swyddogion prawf dan hyfforddiant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi arwain at 220 o aelodau staff yn ymgyrmyd â hyfforddiant Cymhwyster Proffesiynol mewn Prawf [PQIP], sy'n creu llif o Swyddogion Prawf sydd newydd gymhwyso.  Oherwydd y cydnabyddir ei fod yn cymryd amser i recriwtio a hyfforddi'r staff hyn, cafwyd buddsoddiad ychwanegol i gynyddu nifer Swyddogion y Gwasanaeth Prawf i gefnogi gwaith cyflawni'r gwasanaeth, yn ogystal â Swyddogion Prawf mewn Timau Rheoi Dedfrydau yn ymgymryd â systemau Asesu Troseddwyr ac adroddiadau carchardai eraill.  Cydnabyddir, hefyd, y bu athreuliad er gwaethaf recriwtio ac er mwyn cadw swyddogion newydd, rhoddwyd mentoriaid cydweithwyr yn eu lle i'w cefnogi o ddyddiad dechrau eu cyflogaeth. Mae Carchar Caerdydd wedi llwyddo i lenwi ei swyddi Rheolwyr Troseddwyr Carchar a chynlluniwyd ymgyrch recriwtio arall ym mis Mawrth 2024 i roi sylw i swyddi gwag yn y Tîm Adsefydlu.  Mae 80% o staff ar raddfa Swyddog Prawf yng Ngharchar Caerdydd ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cynyddu wrth i'r hyfforddeion PQIP gymhwyso. Yn y cyfamser, mae polisi yn yr Unedau Cyflawni Prawf i gefnogi symud staff presennol sydd â sgiliau i swyddi gwahanol.

**Archebu Ymweliadau Cymdeithasol**

Cyn i Wasanaethau Teuluoedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi gymryd drosodd waith rheoli'r archebion ffôn am ymweliadau cymdeithasol, dilynodd staff Carchar Caerdydd yr un broses ag y mae'r Gwasanaeth Teuluoedd yn ei dilyn ar hyn o bryd. Roedd gan Garchar Caerdydd amseroedd agor penodedig a ymestynnwyd gan y Gwasanaeth Teuluoedd gydag archebion ffôn ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener. Defnyddir dyddiau Llun, Mercher a Gwener i brosesu'r archebion ar-lein digidol er mwyn sicrhau bod cyfle cyfartal i gadarnhau ymweliad heb i'r slot gael ei gymryd. Mewn rhai achosion, cydnabyddir nad oes modd archebu ymweliadau y gofynnwyd amdanynt a hynny oherwydd ffactorau megis lle ar y sesiwn y gofynnwyd amdani neu farciwyr lle mae carcharorion penodol yn methu cysylltu. Er enghraifft, ym mis Mehefin 2023, 969 o leoedd ymweld oedd ar gael gyda chyfanswm yr ymweliadau y gofynnwyd amdanynt yn 1879. Hefyd, atebwyd 329 o alwadau gyda 203 o ymweliadau'n cael eu harchebu a 1550 o geisiadau ar-lein. O'r 1550 hyn, roedd 920 o ymweliadau wedi'u harchebu. O ran disgwyl amser maith am alwad, yn ystod tri mis olaf y cyfnod adrodd 19 munud ar gyfartaledd oedd y rhain ym mis Mehefin 2023, 20 munud ym mis Gorffennaf 2023 a 18 munud ym mis Awst 2023. Fodd bynnag, pan fo galwad yn cyrraedd 18 munud, cynigir i'r galwr y dewis o wasanaeth galw'n ôl yr ymatebir iddi yr un diwrnod â'r cais. Mae Carchar Caerdydd wedi gweithio gyda'r Gwasanaethau Teuluoedd i roi

gwybod i garcharorion a'u teuluoedd am y broses i'w dilyn i archebu ymweliad. Nid yw'r Llinell Gymorth wedi derbyn yn flaenorol unrhyw gwynion gan deuluoedd yng Ngharchar Caerdydd na chan y Bwrdd Monitro Annibynnol. At hyn, gofynnir i holl alwyr yLlinell Gymorth Ymweliadau Genedlaethol gwblhau arolwg un cwestiwn, sy'n gofyn i'r galwr sgôrio'r gwasnaeth a gafwyd - 1 yn wael a 5 yn rhagorol. Hyd yn hyn 4 yw'r sgôr ar gyfartaledd i'r Gwasanaethau Teuluoedd.

**Bwyta y tu allan i'r Gell**
Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad oes yng Ngharchar Caerdydd y ddarpariaeth i'r holl garcharorion fwyta y tu allan i'w cell oherwydd cyfyngiadau'r seilwaith. Mae'r carchar yn parhau i adolygu opsiynau yn rhan o'i drefn sydd, yn flaenorol, wedi cyflwyno Barista ar y safle y mae modd i garcharorion fynd iddo'n rheolaidd trwy eu partïon gwaith. Cynigir i'r carcharorion fwyta gyda'u teuluoedd yn rhan o ddarpariaeth yr ymweliadau. Er mwyn sicrhau fod y celloedd mor gyfforddus â phosibl i fwyta ynddynt, mae caeadau ar seddi pob toiled er mwyn lleihau i'r eithaf ar y dafnau dŵr a'r niwlio a achosir wrth dynnu dŵr.

**Carcharorion Trawsryweddol**
Cydnabyddir pwysigrwydd ychwanegu at yr hyfforddiant blaenorol a gwblhaodd staff fel bod modd iddynt gynorthwyo gwaith rheoli carcharorion trawsryweddol. Yn hwyrach ymlaen yn 2024, byddir yn cyflwyno pecyn hyfforddi newydd i Bwyntiau Cyswllt Sengl Trawsryweddol ym mhob carchar i'w cynorthwyo nhw a'u cydweithwyr wrth gyflawni'r *fframwaith polisi Gofalu am Unigolion sy'n Drawsryweddol a'u Rheoli* a chefnogi canllawiau gweithredol. Yn y cyfamser, mae Carchar Caerdydd yn parhau i gynorthwyo carcharorion trawsryweddol yn lleol a defnyddir uned B1 yn bennaf i roi cymorth ychwanegol i garcharorion trawsryweddol. *Mae'r fframwaith polisi Gofalu am Unigolion sy'n Drawsryweddol a'u Rheoli* wedi'i rannu gyda'r holl staff yn lleol a chyflwynwyd sesiwn ar Ymwybyddiaeth Trawsryweddol i 89 aelod o staff. At hyn, rhannwyd â staff daflen wybodaeth leol i garcharorion trawsryweddol ac mae'r rhain ar gael, hefyd, yn y dderbynfa i'w rhoi i garcharorion trawsryweddol.

**Dadansoddiad o Anghenion Iechyd**
Cydnabyddir bod amser maith wedi mynd heibio ers cynnal y dadansoddiad diwethaf o anghenion iechyd yng Ngharchar Caerdydd a threfnwyd y byddir yn dechrau arno ym mis Ebrill 2024.

**Meddyginiaeth**
Yn unol â chanllaw*NG57 - Physical Health of People, in Prison* ac NG5 - Medicines Optimisation Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal [NICE] *bydd pob claf y rhagnodir iddo feddyginiaeth yn y carchar yn cael adolygiad cysoni meddyginiaethau o fewn 72 awr iddynt gyrraedd y carchar.* Mae hyn yn ystyried meddyginiaeth a ragnodwyd yn y gymuned a bydd y Meddyg yng Ngharchar Caerdydd yn gwneud penderfyniad clinigol i un ai parhau â'r un feddyginiaeth, altro'r dos, newid y meddyginiaethau neu roi'r gorau i'w cymryd. Mae Safer Prescribing in Prisons 2*il* *argraffiad**Coleg Brenhinol y Meddygon [[RCGP]* yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer rhagnodi penderfyniadau ac yn cynorthwyo rhagnodwyr yn eu dyletswydd i ragnodi'n briodol er mwyn gostwng camddefnyddio, tynnu sylw a thrais. Bydd penderfyniad clinigol y Meddygon yn ystyried cofnodion cymunedol, llythyrau ysbytai, meddyginiaeth bresennol y claf a'r canfyddiadau clinigol pan fo'r carcharor yn cyrraedd y carchar. Mewn rhai achosion, Bydd angen i'r Meddyg, hefyd, chwilio am wybodaeth ychwanegol am ddiagnosis cyn iddo wneud ei benderfyniad clinigol. Lle byddir yn gostwng y feddyginiaeth neu'n rhoi'r gorau iddi, gwneir hyn yn aml yn y lle cyntaf er diogelwch. Gallai hyn ddigwydd heb i'r claf weld y Meddyg wyneb yn wyneb ond, mewn achosion mwy cymhleth, byddir yn asesu wyneb yn wyneb. Byddir yn rhoi gwybod i gleifion trwy lythyr pan fo newidiadau i feddyginiaeth yn cael ei gwneud o bell a gall y carcharor wneud apwyntiad os yw'n dymuno trafod mwy ar ei feddyginiaeth a'i amgylchiadau.